CYNULLIAD CENEDLAETHOL CYMRU

ADRODDIAD GAN Y PWYLLGOR IECHYD A GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Rheoliadau'r GIG (Treuliau Teithio a Pheidio â Chodi Tâl) (Diwygio) (Cymru) 2006

Ystyriodd y Pwyllgor y Rheoliadau uchod yn ei gyfarfod ar 5 Ebrill 2006. Gwnaed hyn yn unol â'r protocol ar gyfer delio â Deddfwriaeth Sylfaenol y cytunodd y Pwyllgor arno ar 11 Mehefin 2003, lle mae'r Aelodau'n rhoi rhybudd ymlaen llaw am unrhyw gwestiynau neu welliannau sydd ganddynt yng nghyswllt y Rheoliadau.

Ni chynigiodd yr Aelodau unrhyw welliannau i'r Rheoliadau.

Ymatebodd y Gweinidog i dri phwynt i'w hegluro

Jenny Randerson AC:

i. Oes raid i'r Cynulliad ddilyn yr un cynllun treuliau teithio ar gyfer y GIG â hwnnw sydd ar gael yn Lloegr? Mae'r terfynau cyfalaf yn wahanol, ond ymddengys bod pob agwedd arall ar y cynllun yr un fath.

Ymateb y Gweinidog: Mae gan y Cynulliad rywfaint o hawl i ddewis, er enghraifft, y terfynau cyfalaf, ond mae gan y cynllun yr un sail gyfreithiol â chynllun Lloegr ac yn gyffredinol, y mae'r un fath â hwnnw.

ii. A yw cleifion o Gymru sy'n teithio dros y ffin i Loegr yn cael eu talu'n unol â chynllun Cymru?

Ymateb y Gweinidog: Mae cleifion o Gymru sy'n cael eu trin yn Lloegr yn cael eu talu'n unol â chynllun Cymru.

Helen Mary Jones AC:

iii. Pa gamau sy'n cael eu cymryd i godi ymwybyddiaeth o hawliau yng nghyswllt taliadau treuliau teithio a pheidio â chodi tâl?

Ymateb y Gweinidog: mae gwybodaeth am y cynllun wedi'i chynnwys mewn taflenni sy'n sôn am hawl cleifion i gael budd-daliadau a chaiff y rhain eu rhoi mewn lleoedd fel meddygfeydd, adrannau cleifion allanol a llyfrgelloedd cyhoeddus.

Roedd y Pwyllgor yn fodlon ar y rheoliadau fel y'u drafftiwyd.

Rhodri Glyn Thomas AC
Cadeirydd